**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**5 AWST 2020**

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 5 Awst 2020.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr David Cox a Richard Jones

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Roedd y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg), a'r Cynghorydd Helen Brown yno yn arsylwi

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol; Swyddogion Cynllunio; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu Priffyrdd; a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 76. DATGAN CYSYLLTIAD

Cyhoeddodd y Cynghorydd Bernie Attridge fod Aelodau Lleol y Ward wedi cysylltu ag ef ar fwy na thri achlysur ynglŷn ag eitem Agenda 6.2 (060247).

Cyhoeddodd y Cynghorydd Ian Dunbar fod Aelodau Lleol y Ward wedi cysylltu ag ef ynglŷn ag eitem Agenda 6.2 (060247).

Cyhoeddodd y Cynghorydd Marion Bateman y cysylltwyd â'i gŵr, y Cynghorydd Haydn Bateman, ar fwy na thri achlysur ynglŷn ag eitem Agenda 6.3 (061338).

Cyhoeddodd y Cynghorydd Derek Butler gysylltiad personol ag Eitem Agenda 6.4 (060961) gan ei fod yn aelod o Fwrdd yr AHNE.

## 77. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r agenda ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4714&Ver=4&LLL=1

## 78. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2020 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Chris Bithell a Richard Lloyd eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 79. EITEMAU I'W GOHIRIO

Doedd dim eitem wedi'u hargymell i'w gohirio.

## 80. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

## 81. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 4.01 pm)

……………………………………………

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gwe-ddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell o we-ddarllediadau ar: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## PWYLLGOR CYNLLUNIO 5 AWST 2020

| EITEM | CYNGOR TREF/CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 061316 | Cyngor Cymuned Queensferry | Cais Llawn – Dymchwel rhan o adeiladau presennol yr ysgol, estyniad unllawr newydd i'r ysgol gynradd ynghyd â gwaith ailwampio allanol ac ailfodelu adeiladau presennol yr ysgol, adeiladu Uned Cyfeirio Disgyblion deulawr ac adeilad Canolfan Gymunedol unllawr, maes parcio, gwaith safle a thirweddu cysylltiedig. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau ym mharagraff 2.01 yr adroddiad ac yn ddibynnol ym marn y Prif Swyddog, Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi, na dderbynnir unrhyw sylwadau gwrthwynebus cyn i'r cyfnod statudol gofynnol ddod i ben o'r dyddiad y codwyd hysbysiadau ar y safle. |
| 060247 | Cyngor Cymuned Penffordd | Cais adran 73 – cais i amrywio amod rhif 2 yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio app/A6835/17/317469 i ganiatáu newidiadau i gynllun y safle | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 061338 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Estyniad newydd i gynnwys 6 ystafell ddosbarth, estyniadau ac addasiadau i adeilad presennol yr ysgol ynghyd a gwaith allanol cysylltiol i berimedr yr adeilad, parcio staff a thriniaethau ffin fel y'i | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF/CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | diwygiwyd. | | |
| 060961 | Cyngor Cymuned Cilcain | Cais Llawn – estyniad a newidiadau i unedau 1 a 2 i ffurfio 1 uned llety i dwristiaid yn Nant y Gain, Pentre, Cilcain | Siaradodd y Cynghorydd Owen Thomas, fel yr Aelod Lleol, yn erbyn y cais | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog, a gydag amod ychwanegol i gyfyngu'r defnydd o'r llety i lety twristiaid. |